# Arolwg o Ardal Gweinidogaeth Bro Madryn

Simon Parton

## Cefndir

Mae'r Eglwys yng Nghymru'n ddiweddar wedi mynd drwy newid mawr i'r gyfundrefn blwyfi. Tra pharheir i gynnal statws gyfreithiol 'Plwyf', mae plwyfi mwy wedi eu creu drwy ymuno plwyfi llai gyda'i gilydd. Adnabyddir y plwyfi newydd hyn yn awr fel 'Ardaloedd Gweinidogaeth'.

Bu i greu'r ardal gweinidogaeth newydd a adwaenir fel Bro Madryn uno'r 'Grŵp Nefyn o Eglwysi' blaenorol, a 'Phlwyf Llaniestyn gyda Botwnnog a Llangwnnadl gyda Bryncroes a Phenllech'. Mae'r Eglwys yng Nghymru yn eglwys eang gyda llawer o arddulliau o addoli, ac mae uno plwyfi'n uned sengl yn anochel yn dod ag undod o fewn amrywiaeth. Mae hon yn her nid yn unig ar gyfer pob un o'r eglwysi ond hefyd yr aelodau (yn yr achos hwn addolwyr rheolaidd) pob eglwys. Mae'r amrywiaeth a'r weinyddiaeth hyn yn anochel yn gosod straen ar y Parchg Richard Wood, y Ficer, i weinidogaethu i bob un o'r eglwysi o dan ei arweinyddiaeth. Mae gan Ardal Gweinidogaeth newydd Bro Madryn yr amryfaliaeth hon, o'r eglwys efengylaidd ym Motwnnog a'r eglwys Eingl-Gatholig yn Llangwnnadl. Ar yr un pryd mae'n rhaid cydnabod bod gan glerigion eu heglwysyddiaeth eu hunain o fewn yr amrywiaeth hon ac mae rhai'n teimlo dan fygythiad drwy arwain addoli mewn traddodiadau gwahanol. Yn ychwanegol, mae'n rhaid i blwyfi megis Bro Madryn gyda diwylliant ac iaith Gymraeg cryf adnabod a pharchu'r angen i ddarparu addoliad yn y Gymraeg a'r Saesneg.

# Review of the Bro Madryn Ministry Area

Simon Parton

## Background

The Church in Wales has recently gone through a major change to the parish system. Whilst still maintaining the 'Parish' legal status, larger parishes have now been created by grouping together existing parishes. These new parishes are known as 'Ministry Areas'.

The creation of the new Ministry Area known as Bro Madryn merged the previous 'Nefyn Group of Churches', and 'Parish of Llaniestyn with Botwnnog and Llangwnnadl with Bryncroes & Penllech'. The Church in Wales is a broad church with many styles of worship, and the merging of parishes into a single unit inevitably brings questions of unity within diversity. This is a challenge not only for each of the churches but also the members (in this case the regular worshippers) of each church. This diversity and administration inevitably places a strain on Revd Richard Wood, the Vicar, to minister to each of the churches under his leadership. The new Ministry Area of Bro Madryn has this diversity, from the evangelical church at Botwnnog and the Anglo-Catholic church at Llangwnnadl. At the same time it must be acknowledged that clergy have their own churchmanship within this diversity and some feel compromised by leading worship in different traditions. In addition, parishes such as Bro Madryn with a strong Welsh culture and language must recognise and respect the need to provide worship in both the Welsh and English language.

# Pwrpas yr Arolwg

Mae creu Ardal Gweinidogaeth drwy ddwyn at ei gilydd naw eglwys sy'n agored ar gyfer addoli rheolaidd yn cwestiynu'n gofal am y clerigion sy'n gyfrifol am nifer o'r fath o eglwysi. Er bod modd cael cefnogaeth ychwanegol drwy glerigion anghyflogedig a chymorthyddion lleyg, ni warentir hynny. Mae gweinidogaethu i naw eglwys a'u gweinyddu wedi ei adnabod gan Gyngor Eglwysig y Plwyf (PCC) a Thîm yr Ardal Gweinidogaeth yn anghynaliadwy; bod yn rhaid gwneud rhywbeth; gan hynny'r arolwg hwn. Mae'r arolwg hwn felly'n edrych ar yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael mewn…

- Amser
- Arian
- Eiddo
- Pobl
- Cronfeydd sydd ar gael

**Amser /** Er bod nifer y gwasanaethau ym mhob eglwys yn amrywio, mae bod yn agored yn rheolaidd ar gyfer addoli cyhoeddus yn parhau i wneud amser yn ofynnol ar gyfer gweinyddu a chefnogaeth gan y Ficer. Gydag 'aelodaeth' gyfansymiol o oddeutu 100, gyda phresenoldeb cyfartalog ym mhob eglwys yn amrywio o 20 i lawr i 4, mae cael naw eglwys yn anghynaliadwy.

**Arian /** Mae arian yn gyfyngedig ac mae'r eglwysi'n dal i gadw cyfrifon banc ar wahân. Endid cyfreithiol yr Ardal Gweinidogaeth yw'r Plwyf, ac mae'n atebol i'r Comisiwn Elusennol am set sengl o gyfrifon yn cwmpasu'r holl weithgareddau cysylltiedig â'r plwyf. Mae angen i'r cyfrifon hyn gael eu symleiddio a'u dwyn o dan un reolaeth, a'r nifer o gyfrifon banc wedi eu gostwng i'r lleiafswm. Mae tystiolaeth yn dangos y gallai hwn fod yn ostyngiad sylweddol, gan felly leihau gweinyddiaeth yn sylweddol.

**Eiddo /** Nid yw telerau'r arolwg hwn yn cwmpasu cyflwr yr eiddo, gan y dylai unrhyw gynllun strategol ar gyfer y Weinidogaeth edrych ar le y mae angen y weinidogaeth. Mae ffurfio'r farn hon yn anodd gan y gall cynnal a chadw adeiladau wneud eu defnyddio'n afresymol. Mae hoffter tuag at yr holl eglwysi ac argymhellir bod cronfeydd 'Cyfeillion …' yn cael ei sefydlu i gynnal yr adeiladau. Mae'r rhain yn denu arian o ffynonellau'r tu allan i'r aelodaeth a chyfyngir hwy i'r eglwys unigol.

# Purpose of the Review

The creation of a Ministry Area by bringing together nine churches open for regular worship questions the duty of care to clergy responsible for such number of churches. Although there can be additional support through non-stipendiary clergy and lay assistants, this is not guaranteed. Ministering to and administering nine churches has been recognised by the PCC and the Ministry Area Team as unsustainable; that something has to be done; hence this review. This review therefore looks at the limited resources available in…

- Time
- Money
- Property
- People
- Funds available

**Time /** Although the number of services at each church varies, being open for regular for public worship still requires time for administration and support by the Vicar. With a total 'membership' of around 100, with average attendance in each church ranging from 20 down to 4, having nine churches is unsustainable.

**Money /** Finances are limited and the churches are still maintaining separate bank accounts. The legal entity of the Ministry Area is the Parish, and accountable to the Charity Commission for a single set of account covering all the activities associated with the parish. These accounts need to be simplified and brought under one management, and the number of bank accounts reduced to a minimum. Evidence shows that this could be a substantial reduction, thus reducing administration considerably.

**Property /** The terms of this review does not cover the condition of the properties, as any strategic plan for Ministry should look at where ministry is needed. This a difficult judgement to make as maintenance of buildings can make its use prohibitive. There is affection for all the churches and it is recommended that 'Friends of …' funds be set up to maintain the buildings. These attract funding from sources outside the membership and are restricted to the individual church.

**Arian sydd ar gael /** Mae arian ar gael o oddeutu £110,000 a ddelir gan Gorff Llywodraethu'r Eglwys yng Nghymru fel ymddiriedolwr gwarchodol ar ran yr Ardal Gweinidogaeth. Cyngor Eglwysig y Plwyf yw'r ymddiriedolwr rheolaethol a'r perchennog buddiannol, ac er bod y cronfeydd hyn yn 'ddigyfyngiad' dylent gael eu defnyddio i bwrpasau eglwysig o fewn y plwyf. Mae dosbarthu'r rhain i'r cyfan o'r eglwysi neu i rai ohonynt yn annhebygol o gael effaith neu wneud gwahaniaeth – dylid eu crynhoi mewn un lle lle y *gallant* wneud gwahaniaeth.

**Funds available /** There are funds available of approximately £110,000 held by the Governing Body of the Church in Wales as custodian trustee on behalf of the Ministry Area. The Parochial Church Council are the managing trustee and the beneficial owner, and although these funds are 'unrestricted' they should be used for ecclesiastical purposes within the parish. Distributing this to all or some of the churches is unlikely to make an impact or a difference – it should be concentrated in one place where it *can* make a difference.

# Terminoleg

Gall y defnydd o eiriau fod yn gynyrfiadol ac mae'n bwysig y deëllir statws eglwysi. Er y gall adeiladau eglwysig gael eu cau oherwydd gormodedd nid hwn yw'r unig opsiwn ar gyfer eglwysi lle mae addoli rheolaidd yn peidio. Mae'r esgobaeth yn ystyried serfydlu cronfa ymddiriedolaeth i gynorthwyo eglwysi gyda hanes a harddwch osgoi cau oherwydd gormodedd. Mae'r eglwysi a ystyrir ar gyfer newid yn yr arolwg hwn yn disgyn gan mwyaf i'r categori hwn ac wrth roi teitl 'Capel Anwes' mae'n cyfeirio'n ôl at eu pwrpas gwreiddiol mewn man pererindod. Mae hyn yn golygu nad eir â'u gadael, eu cau oherwydd gormodedd na'u gwerthu. Yn hytrach byddant yn parhau i gael eu defnyddio gan y plwyf mewn ffyrdd cadarnhaol a gellid eu defnyddio ar gyfer gwasanaeth achlysurol a bod yn agored i weddi breifat.

# Terminology

The use of words can be emotive and it is important that the status of churches is understood. Although church buildings can be made redundant this is not the only option for churches where regular worship stops. The diocese is considering setting up a trust fund to aid churches with history and beauty, to avoid closure and redundancy. The churches being considered for change in this review mostly fall into this category and by giving a title 'Chapel of Ease' refers back to their original purpose in a place of pilgrimage. This means that they will not be abandoned, made redundant or sold. Rather they will continue to be used by the parish in positive ways and could be used for the occasional service and be open for private prayer.

# Statws yr eglwysi

Ceir 11 o eglwysi o dan ystyriaeth, sef:

- Pistyll, Bueno Sant
- Llandudwen, Tudwen Sant
- Llangwnnadl, Sant Gwynhoedl
- Bryncroes, Y Santes Fair
- Nefyn, Dewi Sant
- Tudweiliog, Cwyfan Sant
- Edern, Edern Sant
- Botwnnog, Bueno Sant
- Llaniestyn, Sant Iestyn

*Eglwysi a gaewyd*

- Penllech, Y Santes Fair
- Morfa Nefyn, Y Santes Fair

O'r rhaid nid ystyrir Penllech ar gyfer newid statws.

# Status of churches

There are 11 churches under consideration:

- Pistyll, St Bueno
- Llandudwen, St Tudwen
- Llangwnnadl, St Gwynhoedl
- Bryncroes, St Mary
- Nefyn, St David
- Tudweiliog, St Cwyfan
- Edern, St Edern
- Botwnnog, St Bueno
- Llaniestyn, St Iestyn

*Closed churches*

- Penllech, St Mary
- Morfa Nefyn, St Mary

Of these Penllech is not being considered for a change of status.

# Ymgynghoriad

Yn rhan o'r arolwg hwn cynhaliwyd ymgynghoriad a oedd yn cynnwys cyfarfod gydag aelodau, a holiadur a aeth i aelodau'r eglwysi a'r gymuned leol. Mae partïon sydd â diddordeb wedi cael y cyfle i gyfrannu felly. Cafwyd 17 o ymatebion. Ymateb buddiol oedd parodrwydd i symud i leoedd eraill o addoliad pe bai eu heglwys yn peidio â bod ag addoliad rheolaidd. Dangoswyd parch hefyd gan aelodau tuag at y gwahanol ddulliau o addoli o fewn y plwyf. Fodd bynnag tra roedd pawb yn parchu gwaith caled a gofal bugeiliol Richard Wood roedd gwahaniaethau barn ar y modd y dylai ficer 'edrych' a chael ei (h)adnabod yn y gymuned. Mae hyn wrth gwrs drwy wisgo coler glerigol lle bo'n briodol yn gyhoeddus, ond mater i Richard ydyw ac i draddodiad eglwysig personol.

# Consultation

As part of this review a consultation was carried out which included meetings with members, and a questionnaire which went to members of the churches and the local community. Interested parties have therefore had the opportunity to contribute. There were 17 responses. A helpful response was a willingness to move to other places of worship should their church cease to have regular worship. Respect was also shown by members for the different styles of worship within the parish. However whilst all respected the hard work and pastoral care of Richard Wood there were differences of opinion on how the vicar should 'look' and be recognised within the community. This is of course through wearing a clerical collar where appropriate in public, but is a matter for Richard and personal church tradition.

# Darparu addoliad Cymraeg ei iaith

Ni ellir gorfynegi pwysigrwydd hyn a chafodd ei atgyfnerthu yn yr ymatebion ymgynghorol. Hyd yn oed heb ofyn cyfreithiol i wneud darpariaeth, mae'n annychmygol peidio â gwneud hyn yn flaenoriaeth. Tra gall gwasanaethau Cymraeg eu hiaith fod yn rhan o addoliad ym mhob eglwys, er mwyn pwysleisio pwysigrwydd yr iaith a'r diwylliant mewn addoli dylai fod lle addoliad un pwrpas a heb ei guddio yn rhywle! Mae gan yr eglwys ym Morfa Nefyn, sydd wedi ei chau ar hyn o bryd, gyfleusterau ac mae mewn lle strategol i ddarparu'r weinidogaeth hon.

# Provision of Welsh language worship

The importance of this cannot be overstated and was reinforced in the consultation responses. Even without a legal requirement to make provision, it is unthinkable not to make this a priority. Whilst Welsh language services can be part of the worship in each church, to emphasise the importance of language and culture in worship there should be dedicated place of worship and not hidden away! The church at Morfa Nefyn, currently closed, has facilities and is in a strategic place to provide this ministry.

# Cenhadaeth i rai ar eu gwyliau

Yn ystod yr haf mae gan y plwyf lawer o ymwelwyr ar eu gwyliau a cheir darpariaeth ar gyfer hyn ar hyn o bryd. Fodd bynnag rhan fechan yn unig yn ddadleool o waith y plwyf yw hyn ac er ei fod yn bwysig ni ddylai fod yn ffactor sy'n penderfynu mewn strategaeth ar gyfer ad-drefnu.

# Mission to holiday makers

During the summer the parish has many holiday makers and there is currently provision for this. However this is arguably only a small part of the work of the parish and although important should not be a determining factor in a strategy for reorganisation.

# Argymhellion/Opsiynau

**Mae Cyngor Eglwysig y Plwyf (PCC)…**
… yn parhau i weithio gyda'i gilydd i ddod â gweinidogaeth a chenhadaeth i'r plwyf cyfan gyda pharch tuag at y gwahanol arddulliau o addoli.

**Eglwys Dewi Sant…**
… i gadw ei statws fel eglwys blwyf a hi yw'r 'brif' eglwys, yr ychwanegir ati gan gynulleidfa Saesneg ei hiaith o Fotwnnog. Gweler isod.

**Eglwys Dewi Sant…**
… fel prif eglwys y plwyf, i ystyried ei chynllun fel y bydd yn fwy hyblyg ar gyfer gweithgareddau cymunedol ac eglwysig. Mae hyn yn debygol o gynnwys symud y seddau a chreu ardaloedd croeso i alluogi cyfarfodydd a digwyddiadau grŵp. Yma y bydd lle bydd yr arian yn cael y mwyaf o effaith.

**Morfa Nefyn…**
… yr eglwys i'w dwyn yn ôl i ddefnydd, yn agored ar gyfer addoli rheolaidd, ac i fod gan mwyaf, os nad yn gyfan gwbl, yn addoli Cymraeg ei iaith yn y plwyf.

**Llandudwen, Bryncoes, Edern a Llaniestyn…**
… mae'r eglwysi'n newid statws i 'Gapel Anwes' (neu gyfatebol ), gan beidio ag agor ar gyfer addoli rheolaidd. Gwneir yn wybyddus bod yr adeiladau hyn ar gael ar gyfer gweddïo preifat, a gwasanaethau/digwyddiadau achlysurol.

**Pistyll…**
… yn cadw ei defnydd presennol, gan newid statws i 'Gapel Anwes', fel uchod.

**Llangwnnadl…**
… yn aros yn eglwys gyda thraddodiad Eingl-Gatholig ac yn cymryd rhan weithredol yng nghenhadaeth y plwyf cyfan. Gan fod ar yr eglwys hon, oherwydd ei thraddodiad, angen mwy o gefnogaeth gweinidogaeth ordeiniedig ar gyfer ei haddoli, gellid edrych am y gefnogaeth hon hefyd o'r Ardal Gweinidogaeth gyfagos.

# Recommendations/Options

**The PCC…**
… continues to work together to bring ministry and mission to the whole parish with respect for the various styles of worship.

**St David's…**
… retains its parish church status and is the 'main' church, enhanced by the English speaking congregation from Botwnnog. See below.

**St David's…**
… as the main parish church, considers its layout so that it is more flexible for community and church activities. This is likely to include the removal of the pews and creating welcome areas to enable group meetings and events. This will be where funding makes most impact.

**Morfa Nefyn…**
… church be brought back into use, open for regular worship, and be majority, if not exclusively, Welsh language worship in the parish.

**Llandudwen, Bryncoes, Edern and Llaniestyn…**
… churches change status to 'Chapel of Ease' (or equivalent), ceasing to be open for regular worship. Letting it be known that these buildings are available for private prayer, and occasional services/events.

**Pistyll…**
… maintains its current use, changing status to 'Chapel of Ease', as above.

**Llangwnnadl…**
… remains as the church with an Anglo catholic tradition and takes an active role in the mission of the whole parish. As this church, because of its tradition, requires more ordained ministry support for its worship, this support can also be looked for from the neighbouring Ministry Area.

**Tudweiliog...**

... 'yr eglwys ar y bryn'! Mae sefyllfa'r eglwys hon, mewn cyd-destun pentref traddodiadol o ysgol, swyddfa'r post a thafarn, angen ei chadw gan ei bod hefyd mewn sefyllfa strategol o fewn yr ardal weinidogaethol. Mae ei lleoliad, o'i weld o bell, yn dangos pwysigrwydd presenoldeb daearyddol yr Eglwys. Mewn sgwrs gyda'r eglwys nid yw mater mynediad symudolrwydd a pharcio'n broblem. Mae ganddi, a dylai gadw, traddodiad addoli a fydd yn darparu ar gyfer arddull o addoli 'canol y ffordd' ar gyfer yr Ardal Gweinidogaeth.

**Botwnnog...**

... lle mae'r eglwys mewn cyflwr gwael, y tu draw i arian eu plwyf, gyda'r tu mewn wedi ei ad-drefnu ymaith o'i chynllun gwreiddiol a thraddodiadol. Dywedodd ymatebwyr nad yw'r arddull efengylaidd o addoli yn ddibynnol ar adeilad 'eglwys', ym mha achos y gellir parhau'r weinidogaeth hon mewn anheddau eraill a all gynnwys neuaddau cymunedol neu ysgol.

Mae gan yr eglwys hon wasanaethau Saesneg eu hiaith er hynny y mae mewn prif gymuned Gymraeg ei hiaith. Nid yw'r weinidogaeth yn yr ardal hon yn cyrraedd y bobl leol. Felly byddai'n briodol i addoli yn yr eglwys hon symud ymaith o adeilad yr eglwys, gan ddod yn bennaf, os nad yn gyfan gwbl, yn addoli efengylaidd Cymraeg ei iaith.

Oherwydd cyflwr yr adeilad mae'r eglwys hon yn ymgeisydd ar gyfer eglwys a gaeir oherwydd gormodedd, a gellid ei chynnig i'r gymuned a'r ysgol ar gyfer eu defnydd wedi ei gynorthwyo gan arian o ffynonellau allanol.

O'r ymatebion i'r ymgynghoriad mae aelodau wedi dweud eu bod yn barod i symud eu presenoldeb i eglwysi eraill yn y plwyf ac yma byddai'n briodol bod yr aelodau sy'n siarad Saesneg yn unig yn symud i eglwys Dewi Sant. O'r sylwadau a dderbyniwyd gan y rhai a fyddai'n ystyried hyn *ni* ddylid edrych arno fel 'plannu eglwys' neu 'gymryd drosodd', (fel y dywedodd un unigolyn). Bydd angen parch a dealltwriaeth i ddod â hyn at ei gilydd, ond bydd yn hyrwyddo'r weinidogaeth yn ardal Nefyn.

Mae'r aelodau Cymraeg eu hiaith felly'n cael y cyfle i ddechrau eglwys genhadol yn ardal Botwnnog, heb yr angen am adeilad parhaol.

**Tudweiliog...**

... the 'church on the hill'! The positioning of this church, in a traditional village context of a school, post office and pub, needs to be retained as it is also in a strategic position within the ministry area. Its location, seen from afar, shows the importance of a physical presence of the Church. In conversation with the church the issue of mobility access and parking is not a problem. It has, and should keep, a worship tradition which will cater for the 'middle of the road' style of worship for the Ministry Area.

**Botwnnog...**

... is a church which is in a bad state of repair, beyond the finances of the parish, with the interior being reorganised away from its original and traditional layout. Respondents said that the evangelical style of worship is not dependent on a 'church' building, in which case this ministry can be continued in other premises which can include community or school halls.

This church has English speaking services only yet is in a major Welsh speaking community. Ministry in this area is not reaching local people. Therefore it would be appropriate for worship in this church to move away from the church building, becoming mainly, if not wholly, Welsh speaking evangelical worship.

Because of the condition of the building this church is a candidate for redundancy, and could be offered to the community and school for their use helped by funding from external sources.

From the responses to the consultation members have said that they are prepared to move their attendance to other churches in the parish and here it would be appropriate that the English only speaking members move to St David's. From the comments received from those who would consider this it should *not* be seen as a 'church plant' or 'take over', (as one person said). It will require respect and understanding to bring this together, but will enhance ministry in the Nefyn area.

The Welsh speaking members therefore have the opportunity to start a mission church in the Botwnnog area, without the need for a permanent building.

**Arwyddion…**
… ar gyfer pob eglwys i'w hadolygu fel ei bod yn hawdd dod o hyd iddynt. Er enghraifft, mae angen i Eglwys Dewi Sant gael hysbysfyrddau enw/croeso yng nghorneli'r wal flaen fel y gall pobl/trafnidiaeth weld bod eglwys yno wrth fynd ati, nid yn unig pan fyddir yn gyfochrog â'r ffordd. Mae llwyn wedi gordyfu hefyd yn cuddio golygfa o'r eglwys! Gellir mynd at yr awdurdod lleol i gael arwyddion ffyrdd i *bob un* o'r eglwysi.

**Signage…**
… for all churches be reviewed so that they are easy to find. For example, St David's needs to have name/welcome notice boards at the corners of the front wall so that people/traffic can see there is a church on approach, not just when parallel to the road. An overgrown shrub also obscures the view of the church! The local authority can be approached to have road signs to *all* the churches.

**Arian…**
**…** pob un o'r eglwysi i'w gydgrynhoi a'i symleiddio. Endid cyfreithiol y plwyf yw Cyngor Eglwysig y Plwyf, a rhaid darparu set sengl o gyfrifon, sy'n cydymffurfio â rheoliadau cyfrifo elusennol, ar gyfer Cyfarfod y Festri. Gall y cyfrifon gynnwys cronfeydd a gyfyngir, a gellir sefydlu cynlluniau 'Cyfeillion …'.

**Finances…**
**…** of each of the churches should be consolidated and simplified. The legal entity of the parish is the Parochial Church Council and a single set of accounts, complying with charity accounting regulations, need to be prepared for the Vestry Meeting. The accounts can contain restricted funds, and 'Friends of …' schemes can be established.

**Iaith y gwasanaethau…**
Mae'n bwysig y darperir ar gyfer siaradwyr Cymraeg a Saesneg yn iaith y gwasanaeth. I siaradwyr Cymraeg sydd hefyd yn siarad a deall Saesneg, mae pob gwasanaeth yn hygyrch; i siaradwyr Saesneg yn unig, dim ond y gwasanaethau Saesneg eu hiaith sydd ar gael. Gyda Morfa Nefyn yn darparu gwasanaethau Cymraeg eu hiaith yn bennaf, gellir cael mwy o wasanaethau Saesneg eu hiaith yn Nefyn, Llangwnnadl a Thudweiliog. Dylid rhoi cyhoeddusrwydd da i bob gwasanaeth, yn cynnwys yn y papurau lleol (os na wneir hynny eisoes) hyd yn oed yn y papur lleol ar gyfer trigolion ac ymwelwyr.

**Language of services…**
It is important that both English and Welsh speakers are catered for in the language of the service. For Welsh speakers who also speak and understand English, all services are accessible; for English-only speakers, only the English language services are available. With Morfa Nefyn providing mainly Welsh language services, there can be more English language services at Nefyn, Llangwynadl and Tudweiliog. All services should be well publicised, including local papers (if not already done) even in the local paper for residents and visitors.

**Cronfa Gweinidogaeth yr Esgob (sydd wedi cymryd lle y Cwota / y Cyfran Plwyf)…**
Mae pryder wedi ei godi o gael llai o eglwysi'n cael eu defnyddio, bydd cyfraniadau Cronfa Gweinidogaethyr Esgob yn y gweddill yn cynyddu i wneud i fyny am y rhai heb addoliad. Tra bo'r swm ar gyfer yr eglwysi sydd ar ôl yn cynyddu'n unigol, nid yw'n cynyddu'r cyfanswm ar gyfer yr Ardal Gweinidogaeth. Mae aelodau bron yn ddieithriad wedi dweud eu bod yn barod i addoli mewn eglwysi eraill, a dylai eu rhoi ddilyn i wneud i fyny'r gwahaniaeth.

**Bishop's Ministry Fund (which has replaced the Quota / the Parish Share)…**
Concern has been raised that by having fewer churches in use, the Bishop's Ministry Fund in the remaining will increase to make up for those without worship. Whilst the amount for the remaining churches will increase individually, it does not increase the total for the Ministry Area. Members have almost exclusively said that they are prepared to worship at other churches, and their giving should follow to make up the difference.

# Adolygiadau Strategol

Mae'r Esgobaeth wedi gofyn i'r Ardaloedd Gweinidogaethol lunio strategaeth ar gyfer, *inter alia,* eu harian a'u heiddo, yn ogystal ag ymwneud â'r strategaeth esgobaethol o ddod yn Eglwys's sy'n Dysgu. Mae'r arolwg hwn wedi ei gomisiynu gan Gyngor Eglwysig y Plwyf (PCC) Bro Madryn a gallai gyfrannu at y broses hon. Bydd datblygu strategaeth yn symud ymlaen mewn trafodaeth gyda'r Archddiacon ac Ysgrifennydd yr Esgobaeth.

Mehefin 2015

# Strategic Reviews

The Diocese has asked Ministry Areas to draw up a strategy for, *inter alia,* their finances and property, as well as engaging with the oversall diocesan strategy of becoming a Learning Church. This review has been commissioned by the PCC of Bro Madryn and could contribute to this process. The development of strategy will move forward to discussions with the Archdeacon and Diocesan Secretary.

June 2015